



Mehefin 24 2018



Emlyn Davies ac Ann Griffiths sydd wedi trefnu'r bore ac Eleri Huws sy'n cyfeilio. Diolch iddyn nhw a chroeso arbennig i ymwelwyr i'n plith.

Y Suliau nesaf.....

Gorffennaf 1af – Sul pentref Efail Isaf.

Gorffennaf 8ed – bydd ymwelwyr o gapeli Cymraeg y rhanbarth yn ymuno gyda ni am yr oedfa. Wedi'r oedfa bydd te/coffi ac wedyn taith gerdded i'r rhai hoffai gerdded i ben y Garth.

Gorffennaf 15fed – Sul i'r teulu cyfan gyda gemau a picnic yn y parc i ddilyn.

Rhybudd Perygl

Nid yw'r fynwent yn gwbl ddiogel ac yn arbennig felly i blant chwarae ynddi. Felly apeliwn ar rieni, athrawon yr Ysgol Sul ac eraill i wneud yn siŵr bod y plant yn eu gofal yn cadw draw o'r fynwent rhag iddynt gael niwed.

Mae Allan Rochford wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddo.

Ebost Gwilym Huws ein hysgrifennydd yw

gehpengwern@yahoo.co.uk

Cyhoeddiadau at:

geraintrees@hotmail.com

Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar

www.tabernacl.org

Mae llwyth o bethau amrywiol a doeth ar

www.cristnogaeth21.cymru

Os hoffech ddefnyddio'r ganolfan neu'r capel, ebostiwch carolinerees2@hotmail.com

10.30

Diolch i bawb am aros tan 10.30 ar foreau Sul cyn dod i mewn i'r capel er mwyn peidio a tharfu ar yr oedfa Saesneg. Gwerthfawrogi yn fawr.

Tafod y Tab

Daeth hi'n amser i baratoi rhifyn Gorffennaf o *Tafod y Tab*. Os oes gennych gyfraniad i'w gynnig boed yn adroddiad, ysgrif, cerdd neu luniau perthnasol i'w cynnwys ynddo yna byddem yn ddiolchgar iawn pataech yn eu hanfon at Eleri a/neu Gwilym (gehpengwern@yahoo.co.uk). Ein gobaith yw bwrw ato i roi'r cyfan at ei gilydd yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 9 Gorffennaf fel y gellir dosbarthu'r *Tafod* i'r aelodau bore Sul 22 Gorffennaf. Diolch.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 3 Gorffennaf. Os ydych am anfon adroddiad neu am i'r Bwrdd drafod unrhyw fater yna anfonwch air at yr Ysgrifennydd erbyn nos Lun 2 Gorffennaf (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205 / 07710 237327).

Merched y Tabernacl

Gorffennaf 5ed

Cwrdd yn 'Cwrt Insole' am 10.30 am banded a chlonc a hefyd cawn gyfle i fynd o gwmpas y tŷ a'r gerddi.

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Gweinidogaethu wedi gwasanaeth bore Sul Gorff. 15eg

Mae ambell Sul yn wag ar y rhestr flodau a'r rhestr groesawu – yn y fynedfa. Diolch.

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:
'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21 Dydd Sadwrn, 30 Mehefin 2018

'Gwneud Synnwyr o'r Ysgrythur'
yng nghwmni'r
Gwir Barchedig Jeffrey John
Deon St. Albans

10:00 Coffi
10:30 Dechrau'r Sesiwn
1:00 Cinio – pawb i ddod i chinio
1:30 Cyfarfod Busnes
2:15 Diwedd
Tâl Mynediad: £10 ar y dydd

Capel Salem Treganna Caerdydd CFS IQF